

HYWEL SWRDWAL (fl. 1430-60), bardd

Enw: Hywel Swrdwal
Plentyn: Ieuan ap Hywel Swrdwal
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: John Ellis Caerwyn Williams

Awgryma ei enw anghymreig fod gwaed estron yn ei deulu, ac efallai ei bod yn iawn cysylltu'r enw Swrdwal â'r ' de Surda Valle ' a geir yn enw'r Normaniad ' Robertus de Surda Valle,' g r a ymrestrodd dan faner yr arglwydd Bohemond yn 1096 i fynd i un o ryfeloedd y crwsâd, os coelir tystiolaeth Matthew Paris. Fe all hefyd fod Hywel Swrdwal yn un o ddisgynyddion Syr Hugh Swrdwal y dywedir iddo dderbyn maenor Aberyscir yn rhodd am ei wasanaeth i Bernard Newmarch pan orchfygodd hwnnw Frycheiniog ([Theophilus Jones](#), *History of the County of Brecknock*, 3ydd arg., i, 61). Sut bynnag am hynny, dywedir i Hywel Swrdwal dreulio'r rhan fwyaf o'i oes yng Nghydewain, Sir Drefaldwyn, iddo fod yn feili'r Drenedydd rhwng 1454 a 1456, ac iddo ysgrifennu hanes Cymru yn Lladin, heblaw barddoni. Yn ôl [R. Fenton](#), yr oedd Hywel yn aelod o'r comisiwn a benodwyd gan Edward IV yn 1460 ' to enquire touching the Progenie and Descent of the honourable Name and Family of the Herberts.' Awgryma hyn ei fod ar delerau da â'r boneddigion y gwyddom iddo ganu cywyddau i rai ohonynt. Canodd gywydd marwnad ar ôl [Syr Watcyn Fychan](#), Brodorddyn (Bredwardine), ac awdl foliant i [William, arglwydd Herbert](#). Ar ddiwedd yr awdl honno yn un o'r llawysgrifau ceir ' Howel owrwal ai cant 1450.' Os yw'r dyddiad hwnnw'n iawn, y mae'r dyddiadau eraill yn cytuno ag ef, ac yr oedd y [Dr. John Davies](#) yn agos ati wrth farnu iddo flodeuo rhwng 1430 a 1460. Dywedir yn *Y Brython*, iii, 137, ar sail llawysgrif a geir yn yr Amgueddfa Brydeinig, mai yn Llanuwchllyn y claddwyd ef. Cyhoeddwyd cynnyrch barddonol Hywel Swrdwal gan ' The Bangor Welsh MSS. Society.'

Atega'r cynnyrch hwnnw'r traddodiad fod Hywel Swrdwal yn ddyd dysgedig ac nid yw'n syn felly fod ei fab [Ieuan](#) wedi mynd i Rydychen. Yr oedd [Ieuan ap Hywel Swrdwal](#) yntau'n fardd, a chyn ei farw cynnar yn Rhydychen yr oedd wedi cynnal ymryson â [Llawdden](#). Ymddengys fod [Llawdden](#) yn berson ym Machynlleth ar y pryd, ac efallai mai'r ymryson hon a roes fod i'r traddodiad fod Hywel Swrdwal wedi bod yn byw ym Machynlleth am gyfnod, er y geill y traddodiad fod yn ddigon gwir. Dylid nodi fod peth amheuaeth yngl n a pha gywyddau y dylid eu priodoli i'r tad a pha rai y dylid eu priodoli i'r mab. Cadwyd cerdd a ganodd [Ieuan](#). I Dduw ac i Fair Wryry ' yn Saesneg 'ar fesur a chynghanedd Kymraeg.'

Awdur

Yr Athro John Ellis Caerwyn Williams, (1912 - 1999)

Ffynonellau

J. C. Morrice, *Gwaith Barddonol Howel Swrdwal a'i Fab Ieuan* (Bangor 1908)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies (1894)*, 133-4

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [36562757](#)

Wikidata: [Q16205776](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.